

CYFFES FFYDD

23. Am undeb â Christ.

Y mae y rhai sydd yn cael eu galw yn effeithiol yn cael eu dwyn i undeb dirgeledig â Christ (a). Er eu bod wedi eu hethol yn Nghrist er tragwyddoldeb, ac efe yn eu cynrychioli yn y cyfamod tragwyddol (b), eto y maent hwy wrth naturiaeth yn blant digofaint fel eraill, yn elynion Duw, ac ymhell oddi wrth Grist (c), hyd nes danfonir yr Ysbryd Glân i'w hargyhoeddi o bechod, a dangos eu cyflwr truenus iddynt, a datguddio Crist iddynt, eu tynnu ato ef, a'u creu ynddo; yna byddant yn aelodau yn ei gorff dirgeledig ef, ac ynddo fel canghennau yn y winwydden (d). Yna y mae efe, a'r iachawdwriaeth sydd ynddo, yn eiddo iddynt; y mae yr Ysbryd Glân yn preswyllo ynddynt; ac y maent yn derbyn pob gras o gyflawnder Crist (e). Y mae

yr undeb hwn yn agos ac annwyl, yn undeb bywiol a ffrwythlon, yn undeb cadarn a thragwyddol; gan fod y Pen yn fyw, byw fydd yr aelodau hefyd (f). Nid yw y rhai hynny mwy yn yr Adda cyntaf fel pencyfamodwr, na than y cyfamod hwnnw, na'i felltithion; ond y maent yn Nghrist, Pen y cyfamod gras, a hawl ganddynt i holl fendithion y cyfamod (g).

23. Of Union with Christ.

Those who are effectually called are brought into a mystical union with Christ (a). Though they were elected in Christ from eternity, and represented by him in the eternal covenant (b), nevertheless they are by nature the children of wrath, even as others, enemies of God, and far

from Christ (c), until the Holy Ghost is sent to convince them of sin, show them their state of misery, reveal Christ to them, draw them to him, and create them in him; then will they be members of his mystical body, and will be in him as the branches are in the vine (d); then Christ and his salvation become theirs; the Holy Ghost dwells in them; and they receive every grace from the fulness of Christ (e). This union is intimate and loving; quickening and fruitful; strong and eternal : because the Head lives, the members shall live also (f). They are no more in the first Adam, as their covenant-head, nor under that covenant or its curse; but they are in Christ, the head of the covenant of grace, and have a right to all the blessings of the covenant (g).

(a) 1 Cor. 1:30, 6:17; Ioan/John 17:26; Eff./Eph. 2:21-22, 3:17; Col. 1:27.

(b) Eff./Eph. 1:4; Heb. 7:22; 2 Cor. 5:21; 2 Thes. 2:13; Rhuf./Rom. 16:13; 2 Tim. 1:9; Titus 1:2.

(c) Eff./Eph. 2:3, 11-13.

(d) Ioan/John 6:56, 14:20, 15:4-7, 16:8-10, 17:21; Col. 1:13; Eff./Eph. 2:10, 3:17; 2 Cor. 5:17; 1 Ioan/1 John 5:20; 1 Cor. 6:15.

(e) 1 Ioan/1 John 5:11-12; Gal. 2:20; Col. 3:3; Heb. 3:14; 1 Cor. 3:22-23, 6:19; 2 Tim. 1:14; Rhuf./Rom. 8:11; Ioan/John 1:16.

(f) Eff./Eph. 4:16, 5:30; Col. 1:18, 2:7; Gal. 2:20 gwêl/see (e); Ioan/John 14: 19-20.

(g) Rhuf./Rom. 5:12-21, 7:4, 8:1; 1 Cor. 15:22-23, 49; Heb. 8:8-12; Eff./Eph. 3:19; Phil. 4:19.